Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adnoddau Addysg
# Pecyn Etholiad

# National Assembly for Wales
Education Resources
# Election Pack



**Cyflwyniad I Athrawon**

**Nodau ar gyfer Athrawon :**

I gynnig gweithgareddau dosbarth ynghyd â deunyddiau dysgu sy’n seiliedig ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a’r system bleidleisio.

**Amcanion ar gyfer Athrawon :**

Galluogi athrawon i

- Esbonio system etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gynllunio a chynnal gweithgareddau dosbarth sy’n seiliedig ar y system bleidleisio
- Drefnu a chynnal etholiad ysgol
- Gyflawni’r gofynion canlynol o’r Fframwaith ABCh :

Agweddau a Gwerthoedd

- Derbyn cyfrifoldeb am weithredoedd a phenderfyniadau.
- Ymrwymiad i chwarae rhan ymarferol yn y gymuned.


Sgiliau

- Gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol.
- Cymryd rhan mewn dadl a phleidleisio ar faterion.
- Arfarnu safbwyntiau pobl eraill.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

- Gwybod sut y mae Aelodau Cynulliad yn cael eu hethol a beth yw eu swyddogaethau.

**Gofynion Cyffredin:**



**Nodau ar gyfer Disgyblion :**

I hyrwyddo sgiliau dadlau’r disgyblion ac annog cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yng nghyd-destun Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Amcanion ar gyfer Disgyblion :**

- Deall hanfodion y broses ddemocrataidd
- Cymryd rhan mewn dadleuon ystyrlon
- Deall system etholaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a hefyd pam fod pledleisio yn bwysig
- Trefnu a chymryd rhan mewn ffug etholiad.

**Gweithgareddau:**
1 System etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2 Sut i bleidleisio dros Aelod Cynulliad
3 Sut i drefnu a chynnal etholiad ysgol

**Gweithgaredd 1**

**Pleidleisio a system etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Nod:**

Darparu gwybodaeth cefndirol am system etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer disgyblion CA4.

**Adnoddau:**

Gwybodaeth am y Cynulliad (www.cynulliadcymru.org)
Aelodau Cynulliad (www.cynulliadcymru.org)
Taflen Waith 1.1 Gwir neu Anwir?
Taflen Waith 1.1 (atebion)

**Gwers 1:**

Rhannwch yr ystafell ddosbarth yn dair rhan: Cytuno, Anghytuno, Ymatal. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y datganiadau isod yn eu tro a symud i'r rhan o'r ystafell sy'n cyfateb i'w barn ar y mater dan sylw.

**"Dylai pobl o bob oed gael yr hawl i bleidleisio"**
**"Dylid gwneud pleidleisio yn orfodol"**
**"Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru"**
**"Byddai gwneud pleidleisio'n haws yn annog pobl ifanc i bleidleisio"**

Rhaid i'r disgyblion ystyried y dadleuon o blaid neu yn erbyn, a chyfiawnhau eu penderfyniadau.

**Gwers 2:**

Gofynnwch i’r disgyblion gwblhau Taflen Waith 1.1 er mwyn profi eu gwybodaeth am etholiadau.

Atebion:

a) **Gwir;** gallwch bleidleisio mewn un ardal yn unig. Mae modd i fyfyrwyr gofrestru yn y man ble maent yn astudio a hefyd ble mae eu rhieni yn byw, ond dim ond yn un ardal y cânt bleidleisio.
b) **Gwir;** Rhaid cofrestru gyda’r Comisiwn Etholiadol (electoralcommission.org.uk ) Cofrestrwyd 179 o bleidiau ar gyfer yr etholiad cyffredinol ym 2001!
c) **Anwir;** Penodir pob ymgeisydd gan grwpiau’r pleidiau ym mhob etholaeth.
ch) **Anwir;** Gall gynghorwyr sefyll fel Aelodau Cynulliad.
d) **Anwir;** Bydd ymgeiswyr yn colli eu blaendal dim ond os nad ydynt yn ennill 5% o’r bleidlais.
dd) **Gwir;** i ychwanegu eich enw at y gofrestr etholwyr rhaid archebu ffurflen RPF34 gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich Awdurdod Lleol a’i dychwelyd, wedi’i chwblhau gyda phrawf o’ch cyfeiriad. Hefyd gallwch gofrestru ar-lein drwy gydol y flwyddyn ar www.rollingregistration.co.uk Mae’n orfodol llenwi’r ffurflen gofrestru ac mae peidio â chofrestru yn drosedd.
e) **Gwir;** Un papur pleidleisio i ddewis ymgeisydd etholaethol a’r ail i ddewis ymgeisydd rhanbarthol.
f) **Anwir;** Gallwch wneud cais am bleidlais trwy’r post ar wefan www.postalvotes.co.uk.
ff) **Anwir;** Mae SAY yn golygu System Aelod Ychwanegol.
g) **Anwir;** Dim ond 40 Aelod Cynulliad sy’n cael eu hethol drwy’r system CiF.
ng) **Gwir;** mae pleidiau gwleidyddol yn penderfynu ar drefn yr ymgeiswyr ‘rhanbarthol’.
h) **Gwir;** Bydd y Cadeirydd (Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu’r Clerc) yn gofyn am enwebiadau. Bydd yr enwebiadau yn ddilys dim ond os bydd aelod o grŵp gwahanol yn eilio’r enwebiad.
i) **Anwir;** Mae’n rhaid i’r Llywydd, sy’n cadeirio cyfarfodydd llawn y Cynulliad fod yn aelod o grŵp wleidyddol gwahanol i’r Dirprwy Lywydd.
j) **Anwir;** Cynhelir etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol bob pedair blynedd; yn wahanol i’r etholiad cyffredinol sy’n gallu cael ei chynnal bob 5 mlynedd neu pryd bynnag y mae’r Prif Weinidog yn penderfynu.

**Gwersi 3 a 4:**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol. Mae'n rhaid i'r pleidiau gynhyrchu maniffesto, sy'n nodi eu syniadau ar sut i wella'r gymuned a rhesymau dros ddewis eu plaid hwy. Gellid gyfleu'r syniadau ar ffurf poster.

Rhaid i bob grŵp ethol ymgeisydd a fydd yn cynrychioli'r blaid mewn sesiwn *Hawl i Holi* yn y dosbarth. Rhaid i swyddogion y blaid briffio'r ymgeisydd, er mwyn ei helpu i ateb cwestiynau anodd.

**Gwers 5:**

Disgyblion i ymchwilio gwybodaeth am y Cynulliad ar wefan y Cynulliad - www.cynulliadcymru.org Yr athro i brofi gwybodaeth y disgyblion.

- Pryd y cynhelir cyfarfodydd llawn y Cynulliad yn y Siambr?
- Pryd y cynhaliwyd etholiad cyntaf y Cynulliad?
- Pryd y cynhelir etholiad nesaf y Cynulliad?
- Ym mha flwyddyn y byddwch yn gallu pleidleisio am y tro cyntaf? (cynhelir etholiad y Cynulliad bob pedair blynedd)
- Rhestrwch 17 o gyfrifoldebau allweddol y Cynulliad.
- Enwch yr etholaeth yr ydych yn byw ynddi. Pwy yw Aelod Cynulliad eich etholaeth?
- Enwch y 4 Aelod Rhanbarthol ar gyfer eich rhanbarth.

*Ymchwil pellach/ Gwaith Cartref:*

- Beth sydd yn digwydd pan fyddaf yn mynd i'r orsaf bleidleisio?
- Oes rhaid i mi fynd i'r orsaf bleidleisio neu oes modd i mi bleidleisio mewn ffyrdd eraill?
- Oes trefniadau arbennig ar gyfer pobl anabl, neu bobl sy'n methu darllen neu ysgrifennu? Beth ydy'r trefniadau?
- Beth sy'n digwydd os ydwyf yn sâl, neu ar fy ngwyliau yn ystod etholiad ac yn methu cyrraedd yr orsaf bleidleisio?
- Beth yw manteision ac anfanteision y System Aelod Ychwanegol?
- Beth yw gwaith Swyddog Canlyniadau?
- Beth sy'n digwydd pan fydd y gorsafoedd pleidleisio yn cau?

**Bydd y wefan hon yn ateb y mwyafrif o gwestiynau'r disgyblion: http://www.comisiwnetholiadol.org.uk/**

**TAFLEN WAITH 1.1**

| | Gwir | Anwir |
|---|---|---|
| a) Mae’n bosibl cofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un ardal | | |
| b) Gallwch sefydlu eich plaid wleidyddol eich hun gyda blaendal o £150 | | |
| c) Mae ymgeiswyr unigol yn cael eu dewis gan arweinwyr y pleidiau | | |
| ch) Ni all Cynghorwyr Sir sefyll fel Aelodau Cynulliad | | |
| d) Bydd ymgeiswyr yn colli eu blaendal o £500 os nad ydynt yn sicrhau 25% neu fwy o’r pleidleisiau | | |
| dd) Bydd pob person yn derbyn cerdyn pleidleisio cyn etholiad yn eu hatgoffa ble a phryd i bleidleisio | | |
| e) Rhoddir dau bapur pleidleisio i bleidleiswyr ar gyfer etholiadau’r Cynulliad | | |
| f) Nid oes hawl gan bobl yng Nghymru i bleidleisio drwy’r post yn etholiad y Cynulliad | | |
| ff)Mae SAY yn golygu System Ail Ychwanegol | | |
| g) Mae 60 Aelod yn cael eu hethol drwy system ‘y Cyntaf i’r Felin’ | | |
| ng) Rhoddir enwau’r ymgeiswyr rhanbarthol mewn trefn ar y papur pleidleisio gan y pleidiau perthnasol. | | |
| h) Etholir y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd yng nghyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad | | |
| i) Gall Aelod a enwebir ar gyfer swydd y Dirprwy Lywydd fod yn Aelod o’r un blaid â’r Llywydd. | | |
| j) Cynhelir etholiad y Cynulliad pob 5 mlynedd | | |

**GWEITHGAREDD 2**

**Sut i bleidleisio dros Aelod Cynulliad**

**Nod:**

Dysgu sut i bleidleisio yn etholiad y Cynulliad

**Adnoddau:**
Taflen Waith 2.1
Taflen Waith 2.1 (atebion)

**Gwers 1:**

Esbonio’r System Aelod Ychwanegol. Cwblhau taflen waith 2.1.

Yn wahanol i etholiadau cyffredinol sy'n gweithredu yn gyfan gwbl trwy'r ‘System Cyntaf i’r Felin’ (CiF), caiff 60 Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu hethol trwy gyfuniad o’r System CiF a’r System Aelod Ychwanegol (SAY). Mae’r system hon yn un cyfrannol sy’n golygu y bydd cynrychiolaeth pob plaid yn y Cynulliad yn adlewyrchu cyfran y pleidleisiau a dderbyniodd y blaid honno yn well nac o dan system CiF.

- Ar gyfer etholiadau’r Cynulliad bydd dau bapur pleidleisio.
- Mae gan bob pleidleisiwr ddwy bleidlais, un ar gyfer ymgeisydd etholaeth ac un ar gyfer plaid.
- Gall ymgeisydd sefyll **naill ai** ar gyfer yr etholaeth **neu** ar gyfer y rhanbarth.

**Papur Pleidleisio 1**
- Bydd yr ymgeisydd sy’n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau ym mhob etholaeth yn ennill y sedd honno ar fwyafrif syml (fel mewn Etholiad Cyffredinol).

**Papur Pleidleisio 2**
- Caiff pedwar Aelod ychwanegol eu hethol o bob un o’r pum rhanbarth yng Nghymru trwy fformiwla SAY.

- Rhaid i bob plaid ddarparu rhestr o ymgeiswyr mewn trefn ar gyfer y seddi Aelodau Ychwanegol.

**Y System Aelod Ychwanegol (SAY)**

Caiff y 4 Aelod Ychwanegol ym mhob un o'r pum rhanbarth eu hethol fel a ganlyn:

- Caiff nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid ar yr ail bapur pleidleisio eu cyfrif
- Caiff y cyfanswm ei rannu â nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan y blaid honno o dan y drefn CiF **plws un.**
- Er enghraifft gan ddefnyddio'r ystadegau isod enillodd Plaid A 116 o bleidleisiau dros y blaid ond fe etholwyd pedwar aelod etholaethol. Felly rhaid rhannu 116 â 5 (4 **plws un)** sy'n rhoi cyfanswm o 23.2
- Y blaid sydd a'r canlyniad uchaf ar ôl y cyfrifiad hwn sy'n cael yr aelod ychwanegol cyntaf. Yn yr achos hwn, Plaid B.
- Ailadroddwch y cyfrifiad ar gyfer yr ail i'r pedwerydd aelod ychwanegol, ym mhob achos gan rannu pleidlais rhestr y blaid â nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan **ychwanegu un, ac unrhyw seddi aelodau ychwanegol a ddyrannwyd mewn rowndiau blaenorol.**

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm pleidleisiau dros blaid (ail bleidlais)** | **116** | **63** | **61** | **56** |
| Sedd ychwanegol 1af | ÷ 5 = 23.2 | ÷ 1 = 63 **etholwyd** | ÷ 3 = 20.3 | ÷ 3 = 18.7 |
| 2ail sedd ychwanegol | ÷ 5 = 23.2 | ÷ 2 = 31.5 **etholwyd** | ÷ 3 = 20.3 | ÷ 3 = 18.7 |
| 3ydd sedd ychwanegol | ÷ 5 = 23.2 **etholwyd** | ÷ 3 = 21 | ÷ 3 = 20.3 | ÷ 3 = 18.7 |
| 4ydd sedd ychwanegol | ÷ 6 =19.3 | ÷ 3 = 21 **etholwyd** | ÷ 3 = 20.3 | ÷ 3 = 18.7 |
| Seddi CiF a enillwyd | 4 | 0 | 2 | 2 |
| Aelodau ychwanegol | 1 | 3 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AC** | **5** | **3** | **2** | **2** |

**Sut i gyfrifo'r System Aelod Ychwanegol**

**Llenwch y tabl**

| | **Plaid A** | **Plaid B** | **Plaid C** | **Plaid D** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm pleidleisiau dros blaid | 79,564 | 58,080 | 34,944 | 30,911 |
| Sedd ychwanegol 1 | ÷ 7 = 11,366 | ÷ 2 = | | |
| Sedd ychwanegol 2 | | | 17,472 | |
| Sedd ychwanegol 3 | | 19,360 | | |
| Sedd ychwanegol 4 | | | | |
| **Seddau CiF a enillwyd** | **6** | **1** | **0** | **1** |
| Aelodau Ychwanegol | | | 2 | |
| Cyfanswm AC yn y rhanbarth | | 3 | | |

1. Rhannu cyfanswm y pleidleisiau rhanbarthol â chanlyniadau'r bleidlais 'y cyntaf i'r felin' plws un.
2. Bydd y blaid sydd â'r nifer uchaf yn ennill yr Aelod Ychwanegol cyntaf.
3. Ailadroddwch y broses hon 3 gwaith, gan rannu pleidleisiau'r blaid gyda chanlyniadau'r bleidlais 'CiF' plws un, ac unrhyw seddi ychwanegol a ddyrannwyd mewn rowndiau blaenorol.
4. Pa blaid sydd wedi ennill y nifer mwyaf o seddi?
5. Beth yw manteision ac anfanteision y system hon?

**TAFLEN WAITH 2.1 atebion**

**Sut i gyfrifo'r System Aelod Ychwanegol**

Llenwch y tabl

| | **Plaid A** | **Plaid B** | **Plaid C** | **Plaid D** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm pleidleisiau dros blaid | 79,564 | 58,080 | 34,944 | 30,911 |
| Sedd ychwanegol 1 | ÷ 7 = 11,366 | ÷ 2 = 29,040 | Rhannu â 1 = 34,944 | Rhannu â 2 = 15,455 |
| Sedd ychwanegol 2 | 11,366 | 29,040 | 17,472 | 15,455 |
| Sedd ychwanegol 3 | 11,366 | Rhannu â 2 = 19,360 | 17,472 | 15,455 |
| Sedd ychwanegol 4 | 11,366 | Rhannu â 4 = 14,250 | 17,472 | 15,455 |
| **Seddau CiF a enillwyd** | **6** | **1** | **0** | **1** |
| Aelodau Ychwanegol | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Cyfanswm AC yn y rhanbarth | 6 | 3 | 2 | 1 |

**GWEITHGAREDD 3**

**Sut i gynnal etholiad ysgol**

**Nod:**

Cynnal etholiad ysgol yn seiliedig ar system etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Dull:**

Gall ysgolion ddewis o’r tri opsiwn canlynol:

1. System y Cyntaf i’r Felin
2. Cyfuniad o’r system Cyntaf i’r Felin a’r System Aelodau Ychwanegol, gan ddefnyddio un grŵp blwyddyn.
3. Cyfuniad o’r system Cyntaf i’r Felin a’r System Aelodau Ychwanegol, gan ddefnyddio rhwng 4 a 7 grŵp blwyddyn.

*Adnoddau:*
Papur pleidleisio 1
Papur pleidleisio 2

**Opsiwn 1. System y Cyntaf i’r Felin**

Mae’r dull hwn yn dilyn trefn pleidlais gyntaf etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhaid i’r ysgol dderbyn enwebiadau ar gyfer pob un o’r prif bleidiau gwleidyddol. Rhaid i’r ymgeiswyr a ddewisir drefnu tîm ymgyrchu ac ysgrifennu maniffesto yn amlinellu eu syniadau. Gellid trefnu sesiwn Hawl i Holi er mwyn i’r disgyblion eraill glywed safbwyntiau pob ymgeisydd cyn yr etholiad. Gellir gyhoeddi canlyniadau’r etholiad mewn gwasanaeth ysgol.

**Opsiwn 2. Cyfuniad o’r system Cyntaf i’r Felin a’r System Aelodau Ychwanegol, gan ddefnyddio un grŵp blwyddyn.**

Mae’r dull hwn yn defnyddio dwy bleidlais fel yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma fersiwn symlach o’r dull a amlinellir yn opsiwn 3.

Y bwriad yw ethol ymgeiswyr ‘etholaethol’ a ‘rhanbarthol’ yn yr etholiad ysgol; bydd pob ‘etholaeth’ yn cynrychioli un dosbarth o fewn grŵp blwyddyn a’r ‘rhanbarth’ yn cynrychioli blwyddyn gyfan yn yr achos hwn. Caiff 4-8 ymgeisydd etholaethol eu hethol ar gyfer y flwyddyn, yn dibynnu ar nifer y dosbarthiadau, a 4 aelod ychwanegol. Bydd yr ymgeiswyr etholaethol yn cynrychioli un dosbarth yr un, a bydd yr aelodau ychwanegol yn cynrychioli’r flwyddyn gyfan.

- Pob dosbarth i ddewis un ymgeisydd ar gyfer y prif bleidiau gwleidyddol a chynnal etholiad gan ddefnyddio papur pleidlais, h.y.

etholir y disgybl sy’n ennill y nifer mwyaf o bleidleisiau yn yr etholiad dosbarth yn aelod etholaethol dros y dosbarth hwnnw. Rhaid i’r ysgol benderfynu ar rôl a chyfrifoldebau’r person hwn o fewn yr ysgol dros y 12 mis nesaf.

- Yn ystod y cyfnod hwn, bydd tiwtoriaid blwyddyn hefyd yn gofyn am enwebiadau gan ddisgyblion y grŵp blwyddyn i ymgyrchu am sedd ‘rhanbarthol’ h.y. bydd y 4 disgybl a enwebwyd, ar gyfer yr ail bleidlais, yn cynrychioli’r grŵp blwyddyn. Rhaid i diwtoriaid blwyddyn gael o leiaf 4 enw ar gyfer pob plaid wleidyddol. Gellir ychwanegu’r rhain i bapur pleidlais 2. Ni all disgybl sefyll fel ymgeisydd ‘etholaeth’ a ‘rhanbarth’.
- Cynhelir etholiad ar gyfer yr Aelodau ‘rhanbarthol’ neu ‘grŵp blwyddyn’. Bydd pob disgybl yn y flwyddyn yn derbyn papur pleidlais ar gyfer pleidleisio dros blaid. Un bleidlais fydd gan bob disgybl. Gellid gwneud hyn ar ddiwedd y gwasanaeth blwyddyn.
- Bydd y staff yn cyfrifo’r canlyniad gan ddefnyddio’r system Aelod Ychwanegol a amlinellwyd yng Ngweithgaredd 2.
- Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn y gwasanaeth ysgol nesaf.

**Opsiwn 3. Cyfuniad o’r System Cyntaf i’r Felin a’r System Aelod Ychwanegol, gan ddefnyddio 4 i 7 grŵp blwyddyn.**

Mae’r dull hwn yn defnyddio dwy bleidlais yn yr un modd ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylid dechrau ar y gwaith ychydig wythnosau ymlaen llaw, a gellir cynnwys gweithgareddau dosbarth o’r pecyn hwn yn ymwneud â’r Cynulliad a’r system bleidleisio. Gellir addasu’r gweithgareddau fel y bo’n briodol. Y nod yw ethol ymgeiswyr ‘etholaethol’ a ‘rhanbarthol’ yn etholiad yr ysgol. Yn yr achos hwn mae’r ymgeiswyr ‘etholaethol’ yn cynrychioli’r grwpiau blwyddyn a’r ymgeiswyr ‘rhanbarthol’ yn cynrychioli’r ysgol gyfan. O ganlyniad, etholir un ymgeisydd etholaethol ar gyfer pob blwyddyn h.y. os yw’r saith blwyddyn ysgol yn cymryd rhan, caiff saith o’r ymgeiswyr eu hethol gan ddefnyddio’r system ‘Cyntaf i’r Felin’, un i gynrychioli bob blwyddyn. Caiff pedwar Aelod Ychwanegol, a fydd yn cynrychioli’r ysgol gyfan, eu hethol gan ddefnyddio’r system Aelod Ychwanegol (gweler Gweithgaredd 2).

**Cam 1**

- Cyhoeddi dyddiad yr etholiad yng ngwasanaeth yr ysgol.
- Penodi pwyllgor etholiad, sef athrawon, cynrychiolwyr cyngor yr ysgol a/neu flwyddyn 12/13, i drefnu a blaenoriaethu tasgau.

Bydd y pwyllgor yn gyfrifol am :

- Osod yr ymgeiswyr 'Rhanbarthol/Ychwanegol' yn eu trefn
- Ddewis yr ymgeiswyr 'Etholaethol' os bydd angen
- Lunio rhestr o'r holl ymgeiswyr
- Lunio rhestr o'r holl bleidiau a'u swyddogion a chadw copi o'u maniffesto
- Drefnu dadl agored gyda chynrychiolwyr o bob plaid
- Baratoi'r papurau pleidleisio pan fydd yr holl ymgeiswyr wedi'u dewis
- Drefnu'r bythau pleidleisio a threfnu bod gwirfoddolwyr yn goruchwylio pob bwth
- Hysbysebu dyddiad ac amser yr etholiad
- Lunio cardiau pleidleisio a'u dosbarthu i bob disgybl
- Gyfrif pob pleidlais a chyhoeddi'r canlyniadau

**Cam 2**

- Dylai'r athrawon dosbarth/ABCh egluro sut yn union y bydd yr etholiad yn gweithio.

**Cam 3**

- Bydd y tiwtoriaid blwyddyn yn derbyn enwebiadau i gynrychioli'r pedair prif blaid yn eu blynyddoedd hwy. Mae'n rhaid i'r penaethiaid blwyddyn dderbyn o leiaf un enw gan bob plaid ar gyfer y bleidlais gyntaf. Os bydd mwy nag un ymgeisydd, cyflwynir yr holl enwau i bwyllgor yr etholiad i ddewis yr ymgeiswyr etholaethol.
- Caiff enwau'r ymgeiswyr eraill a enwebwyd eu cyflwyno ar gyfer yr ail bleidlais (y bleidlais 'ranbarthol').

**Cam 4**

- O dan oruchwyliaeth athro, rhaid i bob grŵp gwleidyddol drefnu cyfarfod i gwrdd â'r ymgeiswyr etholaethol ar gyfer pob blwyddyn. Y grŵp blwyddyn yw'r etholaeth yn yr achos hwn.
- Bydd enwau'r ymgeiswyr 'etholaethol' yn cael eu nodi ar y papur pleidleisio cyntaf ar gyfer eu blynyddoedd perthnasol.
- Bydd enwau'r holl ymgeiswyr sy'n weddill o bob blwyddyn ysgol yn cael eu cyflwyno i bwyllgor yr etholiad a fydd yn penderfynu ar drefn yr enwau ar yr ail bapur pleidleisio.
- Bydd ymgeiswyr yn sefyll **naill ai** ar gyfer etholaeth **neu** ar gyfer rhanbarth.

**Cam 5**

- Dylai rheolwr ymgyrch pob plaid gofrestru enwau'r holl ymgeiswyr gyda phwyllgor yr etholiad.
- Er mwyn dewis y rhestr enwau ar gyfer y bleidlais 'ranbarthol' (yr ysgol gyfan yn yr achos yma) rhoddir enwau'r holl ymgeiswyr sy'n weddill mewn bocs. Rhaid tynnu'r enwau allan fesul un gyda'r cyntaf yn cael ei ddewis i fod yn gyntaf ar y rhestr ar gyfer y blaid berthnasol. Rhaid ailadrodd y broses bedair gwaith ar gyfer pob plaid. Yn ddelfrydol, bydd angen 4 enw ar gyfer pob plaid, ond byddai'r drefn hon yn gweithio gydag isafswm o 8 enw.

**Cam 6**

- Ar ôl cofrestru gyda Phwyllgor yr Etholiad bydd pob plaid yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd a chanfasio er mwyn cael cefnogaeth i'w polisïau.

**Cam 7**

- Yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiad gwahoddir cynrychiolwyr o'r prif bleidiau gwleidyddol i siarad â'u cyd-ddisgyblion mewn dadl agored ynghylch yr hyn y byddent yn ei wneud pe baent yn cael eu hethol.
- Yn ystod yr un cyfnod, gallai'r ysgol wahodd ymgeiswyr yn Etholiadau'r Cynulliad i'r ysgol i siarad am eu rôl fel darpar Aelodau Cynulliad.

**Cam 8**

- Cyn yr etholiad bydd pob disgybl yn derbyn cerdyn pleidleisio i gofrestru eu pleidlais.

**Cam 9**

- Ddiwrnod yr etholiad***:*** Bydd gorsafoedd pleidleisio wedi'u hagor ar gyfer y gwahanol flynyddoedd.
- Rhaid i ddau berson oruchwylio pob gorsaf bleidleisio gan dicio enwau pob disgybl wrth iddynt bleidleisio. Mae'n rhaid i ddisgyblion blwyddyn 8 bleidleisio yng ngorsaf bleidleisio rhif 8, disgyblion Blwyddyn 9 yng ngorsaf bleidleisio 9 ac ati.
- Ni chaniateir i ddisgyblion bleidleisio dros ymgeisydd o flwyddyn arall ar y papur pleidleisio cyntaf. Bydd yr ail bapur pleidleisio yr un fath ar gyfer pob gorsaf bleidleisio.
- Rhaid i bob person sy'n pleidleisio osod croes yn erbyn enw ymgeisydd etholaethol o'u dewis ar y papur pleidleisio cyntaf, a rhoi croes yn erbyn enw plaid ar yr ail bapur pleidleisio.

**Cam 10**

- Rhaid i bwyllgor yr etholiad gasglu'r holl bapurau pleidleisio a chyfrifo'r canlyniad. Dylid diystyru unrhyw bapurau pleidleisio a ddifethwyd.

- Rhaid cyfrifo enillydd y bleidlais gyntaf (etholaeth) ar gyfer pob blwyddyn i ddechrau.
- Dewisir yr enillydd yma trwy'r system 'Cyntaf i'r Felin'. Os bydd 7 blwyddyn ysgol yn cymryd rhan yn yr etholiad bydd 7 cynrychiolydd CiF yn cael eu hethol.
- Rhaid cyfrifo cyfanswm y seddi CiF sydd gan bob plaid ar draws yr ysgol.
- Wedyn, rhaid cyfrif y pleidleisiau dros bob plaid yn yr ail bleidlais.
- Rhaid defnyddio fformiwla'r System Aelod Ychwanegol i gyfrifo pwy fydd y cynrychiolwyr eraill. Rhennir cyfanswm y pleidleisiau dros bob plaid â nifer y seddi etholaethol y mae'r blaid honno wedi'u hennill, ac ychwanegu un. Er enghraifft, os yw Plaid A wedi ennill 260 o bleidleisiau ar draws yr ysgol ac wedi ennill 3 sedd etholaethol, rhennir 260 gyda 4, i roi 65. Os mai 65 yw'r rhif uchaf ymysg y pedair plaid yna plaid A sy'n ennill y sedd ychwanegol gyntaf. Rhaid ailadrodd y broses er mwyn dewis yr ail sedd, ac ati cyn gorffen gyda'r pedwerydd.
- Pan fydd yr holl bapurau wedi'u cyfrif, gellir darganfod canran y disgyblion a bleidleisiodd.
- Bydd y cynrychiolwyr etholaethol yn cynrychioli un flwyddyn ysgol yr un a bydd y 4 cynrychiolydd 'rhanbarthol' neu 'ychwanegol' yn cynrychioli'r ysgol gyfan.
- Dylid cyhoeddi'r canlyniadau gan ddefnyddio system y 'Cyntaf i'r Felin' a'r 'System Aelod Ychwanegol' yn y gwasanaeth ysgol cyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol.

**Canllawiau i'r Pleidiau**

Pan fydd yr ymgeiswyr wedi'u dewis, bydd y Pleidiau'n cyfarfod ar wahân o dan oruchwyliaeth athro. Yn y cyfarfod cyntaf, dylai aelodau'r blaid enwebu rheolwr ymgyrch a swyddog y wasg. Rhaid i'r tîm ysgrifennu maniffesto erbyn y dyddiad cofrestru swyddogol a chynllunio posteri cyhoeddusrwydd a/neu dudalen wybodaeth ar gyfer gwefan yr ysgol er mwyn denu pleidleiswyr.

Ar ôl cofrestru gyda Phwyllgor yr Etholiad, bydd pob plaid yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd a chanfasio er mwyn cael cefnogaeth i'w polisïau. Dylai'r pleidiau hefyd anfon un ymgeisydd i'r ddadl agored (a gaiff ei threfnu gan Bwyllgor yr Etholiad).

**Canllawiau i Bwyllgor yr Etholiad**

Caiff aelod o'r staff ei enwebu i fod yn brif swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholiad yn yr ysgol a dylid sefydlu pwyllgor o wirfoddolwyr o bob rhan o'r ysgol er mwyn trefnu'r etholiad ffug.

Yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor, rhaid i'r prif swyddog canlyniadau ateb y cwestiynau canlynol:

**Pryd y cynhelir yr etholiad ysgol?**

Fel rheol, cynhelir yr etholiad ddiwrnod cyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid cytuno ar amser agor ac amser cau'r orsaf bleidleisio a phryd y cyhoeddir y canlyniadau.

**Sut yr etholir yr ymgeiswyr 'etholaethol'?**

Rhaid i diwtoriaid blwyddyn gyflwyno'r enwebiadau i'r pwyllgor h.y. os oes 4 plaid yn ymladd yr etholiad, rhaid i bob tiwtor blwyddyn gyflwyno 4 enw i'w cynnwys ar y papur pleidleisio cyntaf. Bydd papur pleidleisio cyntaf gwahanol ar gyfer pob blwyddyn a fydd yn cymryd rhan yn yr etholiad. Gellir dewis dau aelod o'r pwyllgor i sicrhau bod yr enwau cywir yn cael eu rhoi ar y papurau pleidleisio cyntaf ar gyfer bob blwyddyn. Caiff disgyblion bleidleisio dros yr ymgeiswyr yn eu blwyddyn hwy yn unig yn y bleidlais gyntaf.

**Sut yr etholir yr ymgeiswyr 'rhanbarthol'?**

Rhaid i bob grŵp plaid gyflwyno rhwng 2-4 o enwau o unrhyw flwyddyn i'w cynnwys yn yr ail bleidlais. Cesglir yr enwau hyn gan wirfoddolwyr o'r pwyllgor, rhaid eu rhoi mewn trefn ar gyfer pob plaid a'u gosod ar yr ail bapur pleidleisio. Bydd yr holl ddisgyblion yn pleidleisio dros un blaid ar yr ail bapur pleidleisio.

**Sut y bydd y bythau pleidleisio'n gweithio?**

Bydd enw pob disgybl ar y rhestr bleidleisio a rhoddir tic wrth enw'r disgybl wrth iddynt bleidleisio. Bydd pob disgybl yn derbyn cerdyn cofrestru gan eu tiwtoriaid dosbarth ar fore'r etholiad. Rhaid iddynt gyflwyno'r cerdyn cyn pleidleisio. Efallai bydd y pwyllgor yn penderfynu mai'r ffordd orau i drefnu hyn yw cael bwth pleidleisio ar wahân ar gyfer pob blwyddyn.

**Pa weithgareddau cefndir y gellir eu cynnal er mwyn cynnwys y disgyblion yn y broses?**

Mae Pecyn Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gweithgareddau ABCh ar gyfer yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â gwaith trafod ar gyfer y cyfnod cyn yr etholiad yn yr ysgol.

**Sut i gyfrifo canlyniad etholiad ysgol gan ddefnyddio'r System Aelod Ychwanegol.**

| | Plaid A | Plaid B | Plaid C | Plaid D |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm pleidleisiau dros blaid (canlyniad yr ail bleidlais ar gyfer pob plaid ar draws yr ysgol) | | | | |
| Seddau CiF a enillwyd (cyfanswm y bleidlais gyntaf ar gyfer pob plaid ar draws yr ysgol) | | | | |
| Sedd Ychwanegol 1 (rhannu'r rhifau yn y rhes gyntaf â chyfanswm y seddi CiF a enillwyd ar gyfer pob plaid , **plws un)** | | | | |
| Sedd Ychwanegol 2 ( ailadrodd yr uchod) | | | | |
| Sedd Ychwanegol 3 ( ailadrodd yr uchod) | | | | |
| Sedd Ychwanegol 4 ( ailadrodd yr uchod) | | | | |
| Aelodau Ychwanegol (cyfanswm y seddi ychwanegol a enillwyd ym mhob colofn) | | | | |
| Cyfanswm AC ar gyfer y 'rhanbarth' (cyfanswm y seddi ychwanegol a chyfanswm CiF = cyfanswm terfynol) | | | | |

**Canlyniadau:**

Y seddi etholaethol ar gyfer pob blwyddyn yw:

| | **Enw** | **Plaid** |
|---|---|---|
| **Blwyddyn 7** | | |
| **Blwyddyn 8** | | |
| **Blwyddyn 9** | | |
| **Blwyddyn 10** | | |
| **Blwyddyn 11** | | |
| **Blwyddyn 12** | | |
| **Blwyddyn 13** | | |

Y seddi rhanbarthol yw:

| | **Enw** | **Plaid** |
|---|---|---|
| **1.** | | |
| **2.** | | |
| **3.** | | |
| **4.** | | |

**Y blaid a enillodd y nifer mwyaf o seddi yw: __________**

| | |
|---|---|
| **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** | **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** |
| CONSTITUENCY BALLOT | **PLEIDLAIS ETHOLAETH** |
| Vote for one candidate only | **Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig** |
| Mark an ✕ in one box. | **Marciwch ✕ mewn un blwch** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | | Llafur Labour | |
| **2** | | | |
| **3** | | | |
| **4** | | | |
| **5** | | **ANNIBYNNOL INDEPENDENT** | |

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

CONSTITUENCY BALLOT

Vote for one candidate only

Mark an ✕ in one box.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**PLEIDLAIS RANBARTHOL**

**Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig**

**Marciwch ✕ mewn un blwch**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Labour Party/<br>Y Blaid Lafur | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/<br>Welsh Liberal Democrats | Conservative Party/<br>Y Blaid Geidwadol | Plaid Cymru- The Party of Wales | Plaid Annibynnol<br>Independent Party |
| 1.<br>2.<br>3.<br>4. | 1.<br>2.<br>3.<br>4. | 1.<br>2.<br>3.<br>4. | 1.<br>2.<br>3.<br>4. | |